# Pecyn i bartneriaid
# Partner pack

Defnyddia dy Gymraeg

croeso

Cymraeg

cyflwyniad

# Sut allwch chi gymryd rhan yn ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg?

**Bydd yr ymgyrch yn cael ei chynnal rhwng 24 Tachwedd a 5 Rhagfyr.**

**Mae Comisiynydd y Gymraeg yn hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a hynny ym mhob agwedd o fywyd. Mae angen i ni gyd fedru defnyddio'r Gymraeg a chael hyder i ddefnyddio'r iaith yn ein bywyd bob dydd.**

Mae nifer fawr o sefydliadau o bob math wedi cefnogi'r ymgyrch yn y gorffennol drwy nodi sut y mae'r cyhoedd yn medru defnyddio'r Gymraeg gyda nhw. Eleni rydyn ni eisiau parhau i rannu lluniau, fideos, a gwybodaeth ddefnyddiol am wasanaethau Cymraeg gan sicrhau bod cwsmeriaid a defnyddwyr yn gwybod bod croeso iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r ymgyrch yn anelu at godi hyder, ac at gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg, gan wireddu'r weledigaeth o Gymru lle gall pobl fyw yn Gymraeg.

introduction

# How can you take part in the 'Defnyddia dy Gymraeg' (Use your Welsh) campaign?

**The campaign will take place between 24 November and 5 December.**

**The Welsh Language Commissioner promotes and facilitates the use of the Welsh language in all aspects of life. We all need to be able to use the language in our everyday life.**

Many organisations have supported the campaign in the past by noting how the public can use the Welsh language with them. This year we want to continue sharing pictures, videos and useful information about Welsh language services ensuring that customers and users know that they are welcome to use the Welsh language.

The campaign aims to raise confidence, and to increase the use of Welsh language services, realising the vision of a Wales where people can live in Welsh.

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

Iaith Gwaith

# Dathlu 20 mlynedd o'r bathodyn oren

Eleni byddwn yn dathlu 20 mlynedd o'r cynllun Iaith Gwaith.

## Beth yw Iaith Gwaith?

Ers ei lansio yn 2005, mae'r cynllun Iaith Gwaith a'r bathodyn oren eiconig wedi bod yn ffordd syml ond pwerus i siaradwyr Cymraeg ddangos eu bod yn croesawu sgwrs yn y Gymraeg.

Gall sefydliadau archebu'r bathodyn (a deunyddiau cysylltiedig) am ddim **yma**. Mae fersiynau digidol hefyd ar gael — logos, llofnodion e-bost, a chefndiroedd cyfarfodydd rhithiol.

Shwmae

Iaith Gwaith

# Celebrating 20 years of the orange badge

This year we will be celebrating 20 years of the Iaith Gwaith scheme.

## What is Iaith Gwaith?

Since its launch in 2005, the Iaith Gwaith scheme and the iconic orange badge have been a simple but powerful way for Welsh speakers to show that they welcome conversation in Welsh.

Organisations can order the badge (and related materials) for free **here**. Digital versions are also available — logos, e-mail signatures, and virtual meeting backgrounds.

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

cefnogi

## Sut fedrwch chi gefnogi ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg?

- Trefnu digwyddiad sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn eich mudiad/sefydliad chi yn ystod cyfnod yr ymgyrch. Rhowch wybod i ni sut fyddwch chi'n gwneud hyn, a rhannwch eich lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ddefnyddio **#DefnyddiaDyGymraeg**.
- Creu fideo byr (tua munud o hyd) o fewn eich sefydliadau/mudiad/busnes yn rhoi gwybod i'r cyhoedd sut maen nhw'n medru defnyddio eu Cymraeg gyda chi. Rhowch wybod i ni er mwyn i ni gael rhannu eich fideos hefyd a defnyddiwch **#DefnyddiaDyGymraeg**.

support

## How can you support the 'Defnyddia dy Gymraeg' campaign?

- Organise an event that promotes the Welsh language in your organisation/business during the campaign period. Let us know how you will do this, and share your photos on social media by using **#DefnyddiaDyGymraeg**.
- Create a short video (about one minute long) within your organisation/business letting the public know how they can use their Welsh with you. Let us know so we can share your videos as well and use **#DefnyddiaDyGymraeg**.

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

dathlu

Os hoffech chi drafod unrhyw gyfraniad arall mae croeso i chi gysylltu â ni o flaen llaw ar cyfathrebu@cyg-wlc.cymru

## Sut i ddathlu'r bathodyn Iaith Gwaith?

- **Arddangos y bathodyn yn glir:** Arddangoswch bosteri neu arwyddion digidol mewn gweithleoedd ac ar-lein.
- **Dathlu gyda'n gilydd:** Cynhaliwch ddigwyddiad pen-blwydd, bore coffi, neu lun tîm i nodi 20 mlynedd.
- **Rhannu straeon:** Rhannwch ddyfyniadau byr, blogiau neu glipiau fideo am yr hyn y mae'n ei olygu i staff a chwsmeriaid i siarad Cymraeg/sut mae'r bathodyn wedi gwneud gwahaniaeth.
- Anogwch bob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i wisgo eu bathodynnau, rhannu lluniau tîm, a'u postio ar-lein gyda **#IaithGwaith20**.
- **Fideo pasio'r bathodyn:** Cyfarwyddiadau ar sut i gymryd rhan

celebrate

If you would like to discuss any other contribution you are welcome to contact us in advance on cyfathrebu@cyg-wlc.cymru

## How to celebrate the Iaith Gwaith badge?

- **Promote it visibly:** Display posters or digital signage in workplaces and online.
- **Celebrate together:** Host an anniversary event, coffee morning, or team photo to mark 20 years.
- **Encourage stories:** Share short quotes, blogs or video clips about what it means for staff/customers to speak Welsh/ how the badge has made a difference.
- Encourage all Welsh-speaking staff to wear their badges, share team photos, and post them online with **#IaithGwaith20**.
- **Pass the badge video:** Instructions on how to participate

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

negeseuon

Mae gwaith celf a logos ar gael i'w lawrlwytho **yma**.

# Negeseuon cyfryngau cymdeithasol

- Mae cyfleoedd ar draws Cymru i ddefnyddio dy Gymraeg. Cofia ddefnyddio dy Gymraeg yn y siop, yn y caffi, yn y gwaith, yn yr ysgol, a gyda dy ffrindiau, ar-lein neu wyneb yn wyneb! #DefnyddiaDyGymraeg
- Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb. Defnyddia dy Gymraeg gyda ni – ar y ffôn, ar y cyfryngau cymdeithasol, mewn e-bost neu wyneb yn wyneb. #DefnyddiaDyGymraeg
- Oeddet ti'n gwybod dy fod di'n medru ... yn Gymraeg gyda ni (e.e siarad ar y ffôn/archebu ar-lein/derbyn hyfforddiant) #DefnyddiaDyGymraeg
- Cofia ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg! Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb. #DefnyddiaDyGymraeg
- Rydym yn falch o ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol, ac os wyt ti yn anfon neges aton ni, fe wnawn ni dy ateb yn y Gymraeg. #DefnyddiaDyGymraeg

- Mae siarad Cymraeg bob dydd yn gwneud gwahaniaeth. Defnyddia dy Gymraeg gyda ni! #DefnyddiaDyGymraeg
- Mae'r bathodyn oren wedi bod gyda ni ers 20 mlynedd – gadewch i ni ddathlu! #IaithGwaith20 #DefnyddiaDyGymraeg
- Dyma ni'n falch o ddangos bathodynnau Iaith Gwaith yn ein gweithle! #DefnyddiaDyGymraeg #IaithGwaith20
- Ers 20 mlynedd, rydyn ni a sefydliadau ledled Cymru wedi bod yn defnyddio'r bathodyn oren i ddangos ein bod yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg. Defnyddia dy Gymraeg gyda ni. #DefnyddiaDyGymraeg #IaithGwaith20
- Ers 20 mlynedd, mae'r bathodyn Iaith Gwaith wedi helpu pobl i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg – gadewch i ni ddathlu ei ben-blwydd gyda'n gilydd! #DefnyddiaDyGymraeg #IaithGwaith20
- Mae bathodyn Iaith Gwaith yn helpu'n cwsmeriaid i wybod eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg gyda ni. #DefnyddiaDyGymraeg #IaithGwaith20

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

messages

New artwork and logos are available to download here.

# Social media messages

- There are opportunities across Wales to use your Welsh. Remember to use your Welsh in the shop, in the café, at work, at school, and with your friends, online or face to face! #DefnyddiaDyGymraeg
- Welsh belongs to us all. Use your Welsh with us - on the phone, on social media, by e-mail or face to face. #DefnyddiaDyGymraeg
- Did you know that you can ... in Welsh with us (e.g. talk on the phone/order online/receive training). #DefnyddiaDyGymraeg
- Remember to start every conversation in Welsh! The Welsh language belongs to us all. #DefnyddiaDyGymraeg
- We're proud to use Welsh on social media, and if you want to write to us, we will answer you in Welsh. #DefnyddiaDyGymraeg
- Speaking Welsh every day makes a difference. Use your Welsh with us! #DefnyddiaDyGymraeg
- The orange badge has been with us for 20 years – let's celebrate! #IaithGwaith20 #DefnyddiaDyGymraeg
- Here we are proudly showing our Iaith Gwaith badges in our workplace! #DefnyddiaDyGymraeg #IaithGwaith20
- For 20 years, organisations across Wales have been wearing the orange badge to show that we offer services in Welsh. Use your Welsh with us! #DefnyddiaDyGymraeg #IaithGwaith20
- For 20 years, the Iaith Gwaith badge has helped people to show that they can speak Welsh - let's celebrate its birthday together! #DefnyddiaDyGymraeg #IaithGwaith20
- The Iaith Gwaith badge helps our customers to know that they can use the Welsh language with us. #DefnyddiaDyGymraeg #IaithGwaith20

Defnyddia dy Gymraeg

Cymraeg

delweddau

Mae gwaith celf a logos ar gael i'w lawrlwytho **yma**.

images

New artwork and logos are available to download **here**.

## Ar y cyfryngau cymdeithasol

## On social media









delweddau

Mae gwaith celf a logos ar gael i'w lawrlwytho **yma**.

images

New artwork and logos are available to download **here**.

## Ar y cyfryngau cymdeithasol

## On social media









proffeil


Mae gwaith celf a logos ar gael i'w lawrlwytho **yma**.

## Ar y cyfryngau cymdeithasol

profile

New artwork and logos are available to download **here**.

## On social media



# Defnyddia dy Gymraeg

**I gysylltu â ni o flaen llaw, i glywed mwy o newyddion neu i rannu gwybodaeth dros gyfnod yr ymgyrch dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn rhannu negeseuon yn ystod cyfnod yr ymgyrch ar #DefnyddiaDyGymraeg ac #IaithGwaith20. Diolch am bob cefnogaeth.**

Os hoffech chi fwy o wybodaeth am yr ymgyrch neu os oes unrhyw gwestiwn gyda chi i'w holi, neu os oes gennych ymholiad ar ran y wasg cysylltwch â cyfathrebu@cyg-wlc.cymru.

**To contact us in advance, to hear more news or to share information during the campaign follow us on our social media channels. We will be sharing messages during the campaign period on #DefnyddiaDyGymraeg and #IaithGwaith20. Thanks for your support.**

If you would like more information about the campaign, if you have any questions to ask, or if you have an inquiry on behalf of the press please contact cyfathrebu@cyg-wlc.cymru.

diolch yn fawr

Cymraeg